Chi biau'r dyfodol

Beth yw'ch barn chi?

Strategaeth Gymunedol Wrecsam
Gweledigaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2009-2020

Os oes gennych unrhyw cwestiynau neu os hoffech gopi o'r ddogfen hon mewn print bras, iaith arall, Braille, neu dâp clywedol, cysylltwch 01978 292298 neu statistics@wrexham.gov.uk

Strategaeth Gymunedol Wrecsam

Mae Strategaeth Gymunedol Wrecsam yn gosod y targedau hirdymor y bydd sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus lleol yn gweithio gyda'i gilydd i'w cyflawni er mwyn gwella ansawdd bywyd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Datblygwyd ein strategaeth bresennol yn 2004 yn seiliedig ar yr hyn a ddywedoch oedd yn bwysig bryd hynny. Rhoddwyd nifer o gynlluniau ar waith i'n arwain i'w ddarparu, gan gynnwys Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Strategaeth Lles, Cynllun Plant a Phobl Ifanc a Strategaeth Diogelwch Cymunedol.

Daw'r Strategaeth Gymunedol â'r cynlluniau hyn at ei gilydd, ynghyd â blaenoriaethau lleol sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus ledled Wrecsam, i ffurfio un cynllun cydlynol yn gosod allan beth fydd yn digwydd ledled y Fwrdeistref Sirol i wella ansawdd bywyd dros yr ychydig flynyddoedd nesaf ac yn yr hirdymor- hyd 2020.

Ar hyn o bryd rydym yn adolygu'r Strategaeth Gymunedol i sicrhau ei fod yn parhau i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl leol nawr ac am y deuddeg mlynedd nesaf.

Rydym wedi cynnal arolwg gyda chroesdoriad mawr o bobl leol ac wedi adolygu blaenoriaethau a chynlluniau presennol. Mae'r wybodaeth hon wedi nodi bod chwe maes y dylem ganolbwyntio arno. Mae manylion ar gael yn y daflen hon.

Nawr rydym angen gwybod beth yw'ch barn chi

Dywedwch eich barn wrthym drwy ateb y cwestiynau ar tudalennau 13 a 14 yn y daflen hon a'i dychwelyd atom ni yn:

Adolygiad Strategaeth Gymunedol,
Perfformiad a Gwelliant,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam,
Stryt y Lampint,
Wrecsam,
LL11 1AY;

ei gwblhau dros y rhyngrwyd:
www.wrexham.gov.uk/english/consultation/wrexham_refreshed/index.htm

neu ein hebostio yn: statistics@wrexham.gov.uk

Mae gennych hyd at 31ain Hydref 2008 i ddweud eich dweud.

Ar ôl y dyddiad hwn byddwn yn ystyried pob ymateb ac yn diweddaru'r strategaeth i sicrhau ein bod yn adlewyrchu beth sy'n bwysig i bobl Bwrdeistref Sirol Wrecsam a beth allwn ni ei gyflawni o fewn yr adnoddau sydd ar gael gennym. Bydd y strategaeth diwygiedig yn cynnwys y blaenoriaethau am y 12 mlynedd nesaf a ceir cynllun gweithredu'n amlygu beth fyddwn yn ei gyflwyno gyntaf. Cyhoeddir y strategaeth derfynol erbyn 1af Ebrill 2009 a bydd ar gael yn gyffredinol.

Sut fyddwn yn cyflwyno ein blaenoriaethau

Bydd gan pob maes yr ydym wedi dweud y byddwn yn canolbwyntio arnynt gynllun gweithredu yn manylu ar y gweithgareddau a wneir i gyflwyno'r flaenoriaeth. Bydd y cynllun gweithredu hwn yn nodi pa sefydliad neu grwp o sefydliadau fydd yn gyfrifol am gyflwyno pob blaenoriaeth a pha bryd y cynhelir gweithgareddau i wneud hyn ddigwydd.

Ynghyd â sefydliadau gwirfoddol a chyhoeddus yn cydweithio i gyflwyno'r weledigaeth hon, mae hefyd yn bwysig eich bod chwithau hefyd yn gysylltiedig. Gallwn ond wir gyflwyno'r weledigaeth hon os yw pawb sy'n byw, gweithio, astudio, a buddsoddi yn y fwrdeistref hefyd yn cymryd rhan i'w wneud yn realiti.

Fel unigolyn, gallai hyn fod drwy wneud gwaith gwirfoddol, ymuno â grwp cymunedol, lansio Cynllun Gwarchod Cymdogol, cefnogi gwyliau a gweithgareddau lleol neu hyd yn oed ddangos balchder mewn, ac edrych ar ôl, y Fwrdeistref Sirol.

Sut y byddwn yn monitro ein cynnydd a'ch diweddaru

Mae angen monitro'n rheolaidd y pethau rydym wedi dweud ein bod yn mynd i ganolbwyntio arnynt i sicrhau ein bod yn cyflawni'r weledigaeth. Hefyd bydd nifer o ddangosyddion perfformiad fydd yn dweud wrthym os yw popeth yn cael ei gyflawni fel y cynlluniwyd.

Felly rydym yn bwriadu:

- Monitro cynlluniau gweithredu a dangosyddion perfformiad
- Adrodd am ein cynnydd yn flynyddol o leiaf i grwp o sefydliadau a gwasanaethau cyhoeddus lleol a adnabyddir fel Bwrdd Gwasanaeth Lleol Wrecsam
- Adrodd yn flynyddol i'r cyhoedd ar ein cynnydd cyffredinol
- Ailadrodd 'arolwg ansawdd bywyd' gyda phobl leol o leiaf bob dwy flynedd
- Adolygu'r strategaeth yn rheolaidd

Ein gweledigaeth am y deuddeg mlynedd nesaf yw:

'I wella ansawdd bywyd i bawb ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam'

Wrth wneud hyn rydym yn ymrwymo i sicrhau bod Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn fan lle mae gan bobl lais yn y gwasanaethau a gyflwynir iddynt ac mae barn, anghenion a dyheadau yn cael eu hystyried.

I gyflwyno'r weledigaeth hon ein nod yw gwneud Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn lle sy'n…

- gofalu am iechyd pobl
- galluogi pobl i gyrraedd eu potensial llawn
- rhoi gwerth ar ddinasyddiaeth, ysbryd cymunedol a chyfrifoldeb cymdeithasol
- gofalu am ei amgylchoedd adeiledig a naturiol
- ddiogel
- ffyniannus yn economaidd

...i holl bobl a chymunedau nawr ac yn y dyfodol.

Lle sy'n gofalu am iechyd pobl…

…sy'n gwella iechyd, gofal cymdeithasol a lles plant, pobl ifanc ac oedolion.

Ffocws:

- Yn darparu cyfleoedd a gwybodaeth i blant, pobl ifanc ac oedolion i wella eu hiechyd a'u lles
- Gwella mynediad at wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles
- Gwella ansawdd gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles i bobl gydag anhawsterau dysgu ac anghenion iechyd corfforol a meddyliol
- Gwella ansawdd gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles i boblogaeth sy'n heneiddio
- Gwella ymrwymiad a bodlonrwydd dinasyddion gyda gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles

Lle sy'n galluogi pawb i gyrraedd eu potensial yn llawn…

…yn darparu addysg hyfforddiant, a chyfleoedd datblygiad personol ragorol.

Ffocws:

- Darparu a hyrwyddo cyfleoedd hygyrch perthnasol i bobl ddysgu a datblygu eu hunain drwy eu bywydau
- Cefnogi ac annog pobl i godi eu dyheadau a chael hyder i wireddu eu huchelgais
- Galluogi plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial academaidd, galwedigaethol, neu botensial creadigol
- Creu diwylliant o ddysgu a datblygiad gydol oes fel bod pobl yn cael eu cefnogi i ddysgu a defnyddio'r sgiliau y maent yn eu meithrin
- Cefnogi pobl i'w galluogi i gael cyflogaeth
- Helpu pobl i ddatblygu'r sgiliau personol ac ymarferol y maent eu hangen i fyw yn annibynnol

Lle sy'n rhoi gwerth ar ddinasyddiaeth, ysbryd cymunedol a chyfrifoldeb cymdeithasol...

…lle mae pobl yn dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd ac yn parchu ei gilydd, yn cymryd cyfrifoldeb amdanynt eu hunain a'u gweithredoedd ac yn cymryd balchder yn y lle maent yn byw.

Ffocws:

- Hwyluso datblygu ysbryd cymunedol fel bod pobl yn falch o'r lle maent yn byw ac yn parchu'r bobl o'u cwmpas
- Galluogi pobl o wahanol gefndiroedd i ddod ymlaen yn dda gyda'i gilydd a chael synnwyr o berthyn
- Galluogi ac annog pobl i fod yn ddinasyddion gweithredol ac ymwneud yn eu cymunedau lleol
- Galluogi ac annog pobl i gymryd cyfrifoldeb amdanynt eu hunain a'u gweithredoedd
- Ymgysylltu'n effeithiol gyda phob cymuned i alluogi pobl i gael llais yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt

Lle sy'n gofalu am ei amgylchoedd adeiledig a naturiol...

…diogelu a gwella'r ardal nawr ac i genedlaethau'r dyfodol.

Ffocws:

- Mynd i'r afael â sialensau newid hinsawdd a lleihau ein heffeithiau negyddol ar yr amgylchedd
- Parchu a hyrwyddo amgylcheddau naturiol, parciau a llecynnau gwyrdd i bawb gael mynediad atynt a'u mwynhau
- Darparu mynediad at rwydwaith cludiant effeithlon, diogel a mwy cynaladwy yn cynnwys ffyrdd, palmentydd, llwybrau beicio a chludiant cyhoeddus
- Sicrhau fod gan bawb fynediad at gartref addas, o ansawdd da
- Galluogi ac annog pobl a busnesau i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu eu gwastraff
- Helpu i gadw'r Fwrdeistref Sirol yn lân, yn daclus, yn ddeniadol ac wedi'i gadw'n dda

Lle sy'n ddiogel…

…gyda chymunedau lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel a saff ac mae lefelau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn lleihau.

Ffocws:

- Lleihau ofni trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol i helpu pobl i deimlo'n fwy diogel
- Mynd i'r afael ag union lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol, trosedd ac anhrefn a'u gostwng
- Rhwystro a lleihau'r niwed a achoswyd o ganlyniad i gamdrin cyffuriau ac alcohol
- Cynllunio amgylcheddau a chodi ymwybyddiaeth a gwella cefnogaeth tuag at atal troseddu fel bod llai o gyfleoedd i droseddu
- Cynyddu hyder pobl i ddweud am drosedd ac anhrefn a chael mynediad at wasanaethau cefnogi
- Sicrhau yr ymdrinnir â throseddwyr yn gadarn a chyfiawn a'u cefnogi i newid eu hymddygiad

Lle sy'n ffyniannus yn economaidd…

…gyda llai o amddifadedd, lle mae cymunedau a busnesau'n gweithio gyda'i gilydd i greu cyfleoedd economaidd da i bobl leol nawr ac yn y dyfodol.

Ffocws:

- Hyrwyddo enw da'r Fwrdeistref Sirol fel lle i fyw, ymweld â hi, astudio, gweithio, a buddsoddi ynddi
- Annog a chefnogi busnesau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i sefydlu eu hunain yn y Fwrdeistref Sirol er mwyn creu cyfleoedd gwaith diogel sy'n talu'n dda ac economi ffyniannus ac amrywiol
- Lleihau amddifadedd a helpu i ryddhau pobl rhag tlodi
- Hwyluso datblygiad ardaloedd sydd angen eu hadfywio yn y Fwrdeistref Sirol
- Annog ystod eang o gyfleusterau diwylliannol, hamdden a chyfleusterau siopa ledled y Fwrdeistref Sirol

Beth yw'ch barn chi?

Dywedwch eich barn wrthym drwy ateb y cwestiynau isod. Wedyn danfonwch y tudalen yma yn ol yn yr amlen blaen daliad. Mae gennych hyd at 31ain Hydref i ddweud eich barn wrthym.

Gan feddwl am eich bywyd bob dydd, pa bethau ymarferol allwn ni ei wneud i chi deimlo bod Wrecsam yn…

- Lle sy'n gofalu am iechyd pobl?

- Lle sy'n galluogi pobl i gyrraedd eu potensial yn llawn?

- Lle sy'n rhoi gwerth ar ddinasyddiaeth, ysbryd cymunedol a chyfrifoldeb cymdeithasol?

- Lle sy'n gofalu am ei amgylchoedd adeiledig a naturiol?

- Lle sy'n ddiogel?

- Lle sy'n ffyniannus yn economaidd?

Os oes gennych unrhyw sylwadau pellach nodwch nhw isod os gwelwch yn dda.

I sicrhau ein bod yn bodloni anghenion holl drigolion mae'n bwysig ein bod yn gofyn ychydig o gwestiynau amdanoch eich hun. Fel gyda phob cwestiwn ymdrinnir â'ch cwestiynau'n gwbl gyfrinachol ac yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data. Ni chânt eu defnyddio i adnabod unrhyw unigolyn na chartref. Os oes yna unrhyw gwestiynau nad ydych yn dymuno eu hateb gadewch nhw'n wag.

Ydych chi yn: ☐ Wryw ☐ Benyw

Pa un o'r grwpiau oedran canlynol sy'n gymwys i chi?

☐ O dan 18 ☐ 18 - 24 ☐ 25 - 44
☐ 45 - 64 ☐ 65 - 74 ☐ 75 neu drosodd

Beth yw eich grwp ethnig?

A) **Gwyn:** ☐ Prydeinig ☐ Gwyddelig ☐ Arall _____

B) **Cymysg:** ☐ Gwyn a Du Caribïaidd
☐ Gwyn a Du Affricanaidd
☐ Gwyn ac Asaidd ☐ Arall _____

C) **Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig:** ☐ Indiaidd
☐ Pacistanaidd ☐ Bangladesaidd ☐ Arall _____

CH) **Du neu Ddu Prydeinig :** ☐ Caribïaidd ☐ Affricanaidd
☐ Arall _____

D) **Tsieineaidd neu grwp ethnig arall:** ☐ Chinese ☐ Arall _____

Oes gennych chi unrhyw salwch hirdymor, problem iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eich gweithgareddau dyddiol neu'r gwaith y cewch wneud? ☐ Oes ☐ Nac oes

Beth yw pedwar arwyddnod cyntaf eich cod post: ☐☐☐☐

Os hoffech ymwneud ymhellach â datblygiad Strategaeth Gymunedol Wrecsam rhowch eich manylion cyswllt isod os gwelwch yn dda. Ni ddefnyddir y wybodaeth hon at unrhyw bwrpas arall ac ni chaiff ei chadw ar ffeil.

Enw _____ Cyfeiriad _____

_____

Ffôn _____ Ebost _____